Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# ABC tanau gwyllt

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **45 munud neu fwy** |
| **Lleoliad** | **Awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar achosion a chanlyniadau tanau gwyllt a sut y gallwn frwydro yn erbyn yr effeithiau ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Dyniaethau | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Celfyddydau Mynegiannol |
|---|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn gallu mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol. | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | | • **Yr hyn sy'n bwysig –** Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Datblygu eu dealltwriaeth o achosion ac effeithiau tanau gwyllt.
- Ystyried ffyrdd o reoli'r amgylchedd naturiol ac ymddygiad dynol er mwyn atal neu leihau effeithiau tanau gwyllt.
- Cydweithio mewn ffordd greadigol i fynegi eu syniadau, meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

## Adnoddau ac offer

- Cardiau adnoddau – ABC tanau gwyllt
- Nodyn gwybodaeth – Tân
- Mynediad at ddeunyddiau naturiol

## Beth i'w wneud

1. Dechreuwch y gweithgaredd trwy drafod beth yw tanau gwyllt gyda'ch grŵp. A allan nhw egluro beth yw'r elfen 'wyllt' , o gymharu hyn â thân sydd dan reolaeth? Defnyddiwch y **Nodyn Gwybodaeth – Tân** i lenwi unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth.
2. A all eich dysgwyr esbonio sut mae tân yn cychwyn? Beth sydd ei angen ar dân i barhau i losgi? Pam mae tanau'n stopio? Defnyddiwch y **Nodyn Gwybodaeth – Tân** i lenwi unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth.
3. Gofynnwch i'ch dysgwyr a ydyn nhw erioed wedi gweld tanau gwyllt neu ardal sydd wedi'i llosgi gan danau gwyllt. Pa effaith gafodd y tân, neu pa effaith fyddai'n ei chael yn eu barn nhw? Sut fydden nhw'n teimlo pe bai tân gwyllt yn cychwyn yn agos at eu cymuned?
4. Eglurwch i'ch dysgwyr y byddan nhw'n gweithio mewn grwpiau bach i ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth am achosion a chanlyniadau tanau gwyllt a'r dulliau o'u brwydro.
5. Rhannwch eich dysgwyr yn dri grŵp a rhowch un o'r pynciau canlynol i bob grŵp trwy roi un o'r cardiau teitl iddyn nhw:
   - Achosion tanau gwyllt
   - Canlyniadau tanau gwyllt
   - Brwydro yn erbyn tanau gwyllt
6. Eglurwch fod yn rhaid i bob grŵp gasglu'r cardiau sy'n berthnasol i'w cerdyn teitl a'u pwnc. Yn dibynnu ar y grŵp, yr amser a'r lleoliad, gallech wasgaru'r cardiau ar y llawr, eu cuddio o fewn ardal benodol neu eu gosod mewn grwpiau ar hyd llwybr. Gellir casglu'r cardiau fel rhan o ras gyfnewid, helfa sborion, neu fel parau cyfatebol. Cadarnhewch fod gan bob grŵp y cardiau cywir. Rhowch amser i'ch dysgwyr drafod y materion a godwyd.
7. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddarllen eu cardiau a thrafod y wybodaeth. A allan nhw feddwl am unrhyw achosion, canlyniadau neu ddulliau eraill o frwydro yn erbyn tanau gwyllt?
8. Ar ôl y drafodaeth, gofynnwch i'r grwpiau gwblhau'r dasg ar y cerdyn her.
   - Yr her yw defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol – mwd, dail, cerrig, brigau, mwsogl, ac yn y blaen, i greu llun, golygfa neu fodel i gynrychioli pwnc y grŵp, gan ddangos rhai o'r achosion, canlyniadau neu ffyrdd o frwydro tanau gwyllt. Neu, gallen nhw greu darn chwarae rôl os yw'n well ganddyn nhw wneud hynny.
   - Anogwch eich dysgwyr i fod yn llawn dychymyg fel bod eu gwaith creadigol yn adlewyrchu cynnwys eu cardiau. Gallech chi a'ch dysgwyr ddewis senario gosod golygfa i seilio'r gweithgaredd arno, fel tanau gwyllt ger y gymuned leol, ar dir fferm neu goetir lleol.
9. Ar ôl cyfnod penodol o amser neu pan fydd y darnau wedi'u cwblhau, gall pob grŵp gyflwyno eu gwaith i'r grwpiau eraill. Er mwyn helpu llif y dysgu, gallech ddechrau gydag achosion, ac yna'r canlyniadau cyn gorffen gyda sut i frwydro tanau gwyllt. A yw eu darnau creadigol yn cyfateb ac yn cysylltu â'i gilydd neu beidio?

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Beth yw tanau gwyllt?
- Sut mae tanau gwyllt yn cychwyn?
- Beth yw effeithiau tymor byr, canolig a hir tanau gwyllt ar natur, ar gymunedau, ar fusnesau lleol?
- Pwy allai gael eu heffeithio gan danau gwyllt?
- Beth ellir ei wneud i atal tanau gwyllt rhag cychwyn?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Pob un o'r 3 set i fod â chod lliw, fel ei bod yn haws grwpio'r cardiau gyda'i gilydd.
- Creu poster yn lle gwneud model 3D.
- Gallai arweinydd y grŵp esbonio pob cerdyn.
- Cael gwared ar rai o'r cardiau ar gyfer pob grŵp.

### Mwy o sialens

- Y dysgwyr i ddod o hyd i gardiau a'u rhannu'n 3 grŵp heb gymorth oedolyn.
- Gallai grwpiau ddarlunio'r cysylltiad rhwng cerdyn achos, canlyniad a brwydro a ddewiswyd ganddynt ac egluro sut maen nhw wedi'u cysylltu trwy fodel, llun, neu ddarn chwarae rôl byr.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

Beth am roi cynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – Canfod y fflamau
- Cynllun gweithgaredd – Taclo'r taniwr
- Cynllun gweithgaredd – Flogio dros natur
- Cynllun gweithgaredd – Ymgyrchu dros natur
- Ymchwilio i weld a oes unrhyw danau gwyllt wedi digwydd yn eich ardal leol.

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  0300 065 3000**



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**